# LLAIS Y MYFYRIWR

## arweiniad i hyrwyddo a chynnal arferion da mewn ysgolion

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

*undeb athrawon mwyaf Cymru*

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Beth yw llais y myfyriwr? | 4 |
| Safbwynt NASUWT | 4 |
| Llais y Myfyriwr yn Ymarferol: Barnu Priodoldeb | 10 |
| Cynghorau ysgol/ymgynghori â disgyblion | 10 |
| Cynnwys disgyblion wrth asesu eu gwaith eu hunain a phennu targedu cynnydd ar gyfer y dyfodol | 11 |
| Disgyblion yn cynorthwyo ac yn gweithio â disgyblion eraill | 12 |
| Disgyblion yn arsylwi ar wersi | 13 |
| Cynnwys disgyblion mewn recriwtio staff | 14 |
| Disgyblion fel llywodraethwyr cyswllt | 16 |
| Cyngor | 17 |
| Atodiad | 18 |

## BETH YW LLAIS Y MYFYRIWR?

Mae ymagweddau polisi tuag at lais y myfyriwr, yn enwedig ar lefel genedlaethol, wedi cael eu dylanwadu gan ddarpariaethau Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi Erthygl 12 UNCRC. Dywed y bydd llywodraethau cenedlaethol yn:

> *'assure to the child who is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child, the views of the child being given due weight in accordance with the age and maturity of the child.'*

Mae gan ddarpariaethau Erthygl 12 oblygiadau pwysig nid yn unig i waith ysgolion ac addysg, ond hefyd i wasanaethau plant eraill, gan gynnwys cyfraith teulu, gofal cymdeithasol, gofal iechyd, a chyfiawnder ieuenctid a throseddol. Y rheswm am y pwyslais cynyddol hwn ar lais myfyrwyr a chyfranogiad disgyblion yw bod cynnwys disgyblion, yn unigol ac ar y cyd, yn eu dysgu eu hunain ac ym mywyd cymunedau eu hysgol yn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol yn cael eu parchu a'u bod yn ategu agweddau pwysig eraill ar eu datblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol a datblygiad eu haddysg.[1]

Mae'r egwyddor sylfaenol o gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, fel a ddisgrifir yn Erthygl 12, yn gyffredin, ac mae tystiolaeth yn cadarnhau bod llunwyr polisi ac ymarferwyr addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi egwyddor llais y myfyriwr.[2]

## SAFBWYNT NASUWT

Mae'r NASUWT yn gwbl bendant y dylai disgyblion chwarae rhan weithredol, adeiladol a phriodol yn eu dysgu eu hunain, yn nysg eu cymheiriaid ac yn natblygiad cymunedau eu hysgol.

Mae athrawon wedi ymdrechu bob amser i sicrhau bod disgyblion yn gallu mynegi eu barn a chyfranogi'n effeithiol yn eu dysgu ac ym mywyd ehangach cymunedau eu hysgol. Mae hon yn elfen sylfaenol o ymarfer proffesiynol athrawon ac mae'n cydnabod bod gallu athrawon i gymell disgyblion i ddysgu'n dibynnu i ba raddau y mae disgyblion yn cael eu cynorthwyo i ymgysylltu mewn ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

---

1 Cronfa Blant y Cenhedloedd Unedig (UNICEF) UK (2008) *Rights Respecting Schools in England* Llundain: UNICEF UK.

2 Halsey, K, Murfield, J, Harland, J L a Lord, P (2006) *The Voice of Young People: An Engine for Improvement? Scoping the Evidence.* Efrog: National Foundation for Educational Research.

Mae diogelu a gwella hawl plant a phobl ifanc i gael eu clywed ac i gyfranogi mewn ffordd ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn un o ddyletswyddau allweddol y wladwriaeth mewn cymdeithas ddemocrataidd. Felly, mae'n egwyddor arbennig o bwysig yng nghyd-destun cyfrifoldebau'r wladwriaeth i sicrhau mynediad cyffredinol at addysg sy'n cael ei hariannu'n dda ac sydd o safon uchel.

Mae'r NASUWT yn credu bod saith egwyddor sylfaenol y dylai gael eu hadlewyrchu yn natblygiad polisi ac ymarfer llais y myfyriwr ar lefel ysgolion i sicrhau bod llais y myfyriwr yn effeithiol ac yn cael ei gefnogi gan gymuned yr ysgol gyfan.

- **Egwyddor 1 –** Dylai gweithgareddau llais y myfyriwr wneud cyfraniad positif a gweladwy at fywyd yr ysgol.
- **Egwyddor 2 –** Ni ddylai gweithgareddau llais y myfyriwr danseilio awdurdod proffesiynol yr athrawon ac ni ddylai beryglu hawliau sylfaenol eraill plant a phobl ifanc.
- **Egwyddor 3 –** Dylai gweithgareddau llais y myfyriwr fod yn rhan o system sy'n gwerthfawrogi ac sy'n parchu safbwyntiau pob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys staff.
- **Egwyddor 4 –** Rhaid i bolisïau ac arferion llais y myfyriwr adlewyrchu gallu disgyblion i gyfranogi mewn gweithgareddau penodol ac mewn ffordd y gellir eu dwyn i gyfrif am ganlyniadau eu gweithredoedd.
- **Egwyddor 5 –** Rhaid i weithgareddau a pholisïau llais y myfyriwr fod yn gydnaws â, ac yn cefnogi gwaith sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu a rhagfarn.
- **Egwyddor 6 –** Rhaid i ddulliau gweithredu llais y myfyriwr fod yn gynhwysol a rhoi cyfle i bob disgybl i gymryd rhan.
- **Egwyddor 7 –** Ni ddylai gweithgareddau llais y myfyriwr ychwanegu at lwyth gwaith yr athro a'r pennaeth nac at feichiau biwrocrataidd ar lefel yr ysgol.

Bydd yr arweiniad hwn yn edrych ar bob un o'r saith egwyddor yn eu tro.

**Egwyddor 1 – Dylai gweithgareddau llais y myfyriwr wneud cyfraniad positif a gweladwy at fywyd yr ysgol.**

Mae'r NASUWT yn credu bod llais y myfyriwr ar ei fwyaf effeithiol pan fydd yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn prosiectau a gweithgareddau sy'n eu galluogi i gyflawni newidiadau gwirioneddol yn eu hysgol, eu cymunedau neu yn y byd ehangach. Ni ddylai gweithgareddau llais y myfyriwr gael eu

cynnal er eu mwyn eu hunain nac ychwaith i alluogi'r ysgol i gydymffurfio â gofynion allanol.

Gallai enghreifftiau o weithgareddau llais y myfyriwr gynnwys: ail ddatblygu gwisg ysgol; sefydlu a rhedeg mentrau ailgylchu; dynodi ac ailddatblygu offer ffisegol neu fannau hamdden; cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol fel gweithio ag elusennau a sefydliadau allanol sy'n helpu'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas; neu ddatblygu a chynnal cysylltiadau byd-eang. Mae gweithgareddau o'r fath yn galluogi myfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu sgiliau, gan gynnwys: datrys problemau; negodi; codi arian; a rheoli prosiectau. Trwy gyfrwng cynlluniau o'r fath mae myfyrwyr yn dod i weld y berthynas symbiotig sy'n bodoli rhwng yr hawliau y gallant eu gweithredu a'r cyfrifoldebau sydd ganddynt.

**Egwyddor 2 – Ni ddylai gweithgareddau llais y myfyriwr danseilio awdurdod proffesiynol yr athrawon ac ni ddylai beryglu hawliau sylfaenol eraill plant a phobl ifanc.**

Mae maen prawf allweddol ar gyfer asesu pa mor briodol a derbyniol yw unrhyw gynllun llais y myfyriwr yn cynnwys ystyried i ba raddau y mae awdurdod proffesiynol athrawon yn cael ei gefnogi neu ei danseilio. Mae unrhyw weithgarwch llais y myfyriwr a ddefnyddir i feirniadu proffesiynoldeb athro a thrwy hynny danseilio awdurdod proffesiynol yr athrawon yn annerbyniol. Yn anffodus, mae'r NASUWT wedi clywed am enghreifftiau o ysgolion yn defnyddio llais y myfyriwr i gwestiynu gallu'r athrawon. Nid yn unig y mae hyn yn arfer cyflogaeth annerbyniol, ond mae'n debygol hefyd o arwain at amheuaeth a gwrthwynebiad ac o danseilio buddiannau llais y myfyriwr.

Mae'r NASUWT yn cydnabod yn llwyr hawl absoliwt pob plentyn a pherson ifanc, a amlinellir yn Erthyglau 28 a 29 yr UNCRC, i gael darpariaeth addysgol sy'n datblygu eu personoliaeth, eu talentau a'u galluoedd meddyliol a chorfforol i'r graddau mwyaf posibl. Amlinellir testun llawn Erthyglau 28 a 29 fel atodiad yng nghefn y llyfryn hwn. Mae sicrhau'r hawl cyffredinol hwn yn rhoi cyfrifoldebau cymhleth ac eang ar ysgolion y mae ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol amdanynt. Os yw hawliau addysgol a hawliadau disgyblion o dan yr UNCRC am gael eu cynnal yn ymarferol, mae sut y bydd cysylltiadau rhwng athrawon a disgyblion yn cael eu sefydlu a'u cynnal yn gwbl hanfodol. Ni ddylai llais y disgybl na chyfranogiad disgyblion amharu ar allu athrawon i gyflawni eu cyfrifoldebau i sicrhau hawl disgyblion i gael addysg o safon uchel.

Mae'r berthynas rhwng awdurdod proffesiynol a sefydliadol a hawliau disgyblion wedi'i gydnabod (gweler, er enghraifft, Adroddiad Elton 1989 ar Ddisgyblaeth mewn Ysgolion) a phwerau fel rhai i archwilio disgyblion, i ddisgyblu, i gadw ac i wahardd disgyblion ac i ffrwyno disgyblion yn seiliedig

ar y cysyniad o awdurdod proffesiynol a sefydliadol. Yn yr un modd, mae cyfrifoldeb athrawon ac arweinwyr ysgolion i ddylunio cwricwla sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd ac i gyflawni eu potensial yn golygu bod athrawon yn atebol am y penderfyniadau a wneir ganddynt. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i athrawon weithredu eu hawdurdod i addysgu ac i arwain addysgu a dysgu. Mae awdurdod athrawon yn bwysig 'i ddiben sicrhau addysg a lles [disgyblion] ac addysg a lles disgyblion eraill yn yr ysgol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau ymddygiad a bennwyd gan yr ysgol'.[2] Mae'r syniad hwn o awdurdod yn gydnaws ag ymagweddau difrifol a bwriadol tuag at lais y myfyriwr a chyfranogiad disgyblion i sicrhau bod barn a safbwyntiau disgyblion yn cael eu clywed a'u hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn yr ysgol.

**Egwyddor 3 – Dylai gweithgareddau llais y myfyriwr fod yn rhan o system sy'n gwerthfawrogi ac sy'n parchu safbwyntiau pob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys staff.**

Dylai llais y myfyriwr fod yn ddull effeithiol o ganfod pryderon a diddordebau disgyblion. Dylai gynnig cyfleoedd i ddisgyblion i deimlo eu bod yn gallu ymgysylltu a dylanwadu ar ddatblygiadau yn eu hysgol. Rhaid i hyn yn rhan o ymagwedd ysgol gyfan sy'n gwerthfawrogi ac sy'n annog cyfraniadau gan bob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys athrawon. Mae'r NASUWT yn credu na all llais y myfyriwr fod yn effeithiol oni bai bod yr ysgol wedi datblygu a gwreiddio trefniadau i sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn gallu mynegi eu barn a'u syniadau mewn amgylchedd agored ac adeiladol sy'n croesawu adborth adeiladol.

Mae gan yr NASUWT dystiolaeth bod gweithgareddau llais y myfyriwr yn cael eu cyflwyno fel rhai sy'n helpu'r ysgol i dalu mwy o sylw i farn myfyrwyr ond bod rheolwyr wedyn yn defnyddio adborth gan fyfyrwyr i ddod i gasgliadau am ansawdd y dysgu. Mae hyn yn achos o gamddefnyddio ymddiriedaeth staff a myfyrwyr ac mae'n amlygu'r angen i ysgolion sicrhau bod y berthynas rhwng y tîm uwch reolwyr a'r strwythurau a'r gweithgareddau i hyrwyddo cyfraniad disgyblion yn gadarn, yn cael ei chynllunio'n eglur ac yn dryloyw.

**Egwyddor 4 – Rhaid i bolisïau ac arferion llais y myfyriwr adlewyrchu gallu disgyblion i gyfranogi mewn gweithgareddau penodol ac mewn ffordd y mae modd eu dwyn i gyfrif am ganlyniadau eu gweithredoedd.**

Dylai myfyrwyr gael eu hannog i ymchwilio, i ddatblygu ac i gyfranogi ym mywyd yr ysgol yn ogystal ag ym mywyd cymuned yr ysgol yn gyffredinol. Mae tystiolaeth gref sy'n dangos pan fydd myfyrwyr yn rhannu perthynas gref a phositif â'u hysgol, maent yn debygol o fod â chymhelliad cryfach i

[3] Yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth a'r Swyddfa Gymreig (1989) *Discipline in Schools: Report of the Committee Enquiry chaired by Lord Elton.*

ddysgu’ Felly, er enghraifft, gellid annog myfyrwyr i ymgymryd â chyfrifoldebau fel bod yn uwch ddisgybl neu fonitor.

Er hynny, er y bydd ysgolion yn awyddus i annog myfyrwyr i berchnogi mwy a chymryd mwy o gyfrifoldeb am agweddau ar fywyd yr ysgol, mae cyfrifoldebau a thasgau ar lefelau ysgol na ddylai myfyrwyr ymgymryd â hwy. Mae Erthygl 12 yr UNCRC yn awgrymu na ddylai myfyrwyr ymgymryd â gweithgareddau sydd angen sgiliau ac arbenigedd proffesiynol i’w cyflawni. Dim ond pobl gymwysedig sy’n meddu ar y sgiliau priodol sy’n atebol am eu penderfyniadau a’u gweithgarwch drwy eu statws fel cyflogeion neu lywodraethwyr ddylai ymgymryd â’r gweithgareddau hyn.

I weithredu’r egwyddor hon mae angen penderfynu a ellir rhoi gweithgarwch neu gyfrifoldeb penodol yng ngofal disgyblion. Er efallai y byddai angen asesu’r ffactorau sy’n gysylltiedig ag achos penodol, mae’r disgrifiad o weithgareddau nodweddiadol llais y myfyriwr yn ddiweddarach yn y llyfryn hwn yn dangos sut y gellid gweithredu’r egwyddor hon i ffurfio barn ar briodoldeb neu amhriodoldeb ymarfer penodol.

**Egwyddor 5 – Rhaid i weithgareddau a pholisïau llais y myfyriwr fod yn gydnaws â, ac yn cefnogi gwaith sy’n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac sy’n mynd i’r afael â gwahaniaethu a rhagfarn.**

Yn ôl y gyfraith, mae dyletswydd ar ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb.[4] Felly, dylai mynd i’r afael â gwahaniaethu a rhagfarn, a hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da gael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau sy’n gysylltiedig â chyfranogiad disgyblion a llais y myfyriwr. Mae’n hanfodol bod dulliau o weithredu llais y myfyriwr yn cydnabod a hybu cydraddoldeb, mesurau gwrth wahaniaethu a chynhwysiant mewn ysgolion.

Mae’r NASUWT yn credu bod angen disgwyliad pendant mewn ymagweddau lefel ysgol tuag at lais y myfyriwr a chyfranogiad disgyblion nad yw datgan safbwyntiau rhagfarnllyd neu wahaniaethol gan ddisgyblion yn rhywbeth sy’n dderbyniol nac y dylid ei oddef ac y cymerir camau rhagweithiol i fynd i’r afael ag ymddygiad o’r fath. Ni all yr Undeb gefnogi gweithgareddau sy’n honni eu bod yn hyrwyddo llais y myfyriwr ond a all fod yn wahaniaethol.

Mae gweithgareddau llais y defnyddiwr wedi cael eu defnyddio i herio bwlio sy’n gysylltiedig â rhagfarn ac i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae’r rhain wedi cynnwys mynd ati i roi gwybod am ddigwyddiadau, mentora gan

[4] Cymru, Lloegr a’r Alban: Deddf Cydraddoldeb 2010. Gogledd Iwerddon: Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Adran 75.

gymheiriaid, prosiectau gweithredu yn y gymuned a gweithgareddau sy'n ennyn ymdeimlad o waith tîm ac sy'n hybu hunaniaeth a rennir.

**Egwyddor 6 – Rhaid i ddulliau o weithredu llais y myfyriwr fod yn gynhwysol a rhoi cyfle i bob disgybl i gymryd rhan.**

Dylai llais y myfyriwr alluogi myfyrwyr i ymateb i faterion a all effeithio ar bob myfyriwr. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb amdanynt eu hunain ac am eraill, i ddatblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng hawliau a chyfrifoldebau a datblygu sgiliau mewn cynrychioli, negodi a dadlau. Mae'r NASUWT yn credu y dylai pob myfyriwr gael ei annog i ddatblygu'r sgiliau hyn ac y dylai ysgolion felly ddatblygu strategaethau i annog pob myfyriwr i fod yn rhan o lais y myfyriwr.

Mae ymchwil wedi amlygu'r risg o ymarfer gwael lle mae safbwyntiau yr honnir eu bod yn cynrychioli poblogaeth y myfyrwyr yn ei chyfanrwydd mewn gwirionedd yn gwneud dim mwy na chynrychioli safbwyntiau grŵp cyfyngedig o ddisgyblion sy'n barod neu sy'n cael eu dewis i gymryd rhan mewn rhai mathau o weithgareddau llais y myfyriwr.[5] Mae ymarfer o'r fath yn debygol o rannu ac, mewn rhai achosion, gall achosi rhai disgyblion i gefnu ar ddysgu neu wrthod cyfranogi mewn ffordd adeiladol ym mywyd ehangach yr ysgol.

**Egwyddor 7 – Ni ddylai gweithgareddau llais y myfyriwr ychwanegu at lwyth gwaith yr athro a'r pennaeth nac at feichiau biwrocrataidd ar lefel yr ysgol.**

Ni ddylai ymagweddau tuag at lais y myfyriwr a chyfranogiad disgyblion weithio yn erbyn ymdrechion i fynd i'r afael â llwyth gwaith ac oriau gweithio gormodol athrawon a phenaethiaid. Pan fo polisïau llais y myfyriwr wedi cael eu datblygu'n briodol, dylent gyfrannu at leihau beichiau biwrocrataidd ar athrawon a phenaethiaid a'u rhyddhau i ganolbwyntio ar addysgu ac arwain addysgu a dysgu.

Mae ymarferion sy'n mynd yn groes i'r egwyddor allweddol hon yn tanseilio amodau gweithio athrawon a phenaethiaid ac maent yn bygwth y ddarpariaeth o brofiadau dysgu safon uchel i ddisgyblion gan eu bod yn tynnu sylw athrawon a phenaethiaid oddi ar gyfrifoldebau craidd a gynrychiolir ganddynt.

Gall arbenigedd allanol gyfoethogi ansawdd cyfranogiad disgyblion a helpu i sicrhau bod athrawon a phenaethiaid yn gallu canolbwyntio ar gyfrifoldebau craidd dysgu addysgu ac arwain addysgu a dysgu.

[5] Fielding and Rudduck op. cit.

## LLAIS Y MYFYRIWR AR WAITH: BARNU PRIODOLDEB

Mae rhai dulliau cyffredin y gellir eu mabwysiadu i roi Llais y Myfyriwr ar waith mewn ysgolion. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio rhai o'r ffyrdd a ddefnyddiwyd i ddatblygu Llais y Defnyddiwr mewn ysgolion ac mae'n rhoi prawf ar bob senario yn erbyn y saith egwyddor.

### Cynghorau ysgol/ymgynghori â disgyblion

Cynghorau ysgol yn aml yw prif ffocws gweithgareddau llais y defnyddiwr mewn ysgolion.

Gall cynghorau ysgol weithredu ar sawl ffurf gan ddibynnu ar faint yr ysgol ac oedran y disgyblion dan sylw. Mewn rhai ysgolion mwy maent yn aml yn cael eu hategu gan gynghorau grŵp blwyddyn neu ddosbarth neu drwy weithgorau penodol o ddisgyblion sy'n cael eu ffurfio i edrych ar faterion penodol.

Gall cynghorau ysgol fod yn gyfrwng pwysig i sicrhau cyfranogiad disgyblion ac mae tystiolaeth gynyddol sy'n dangos eu bod yn gallu chwarae rhan bwysig drwy roi sylw i faterion pwysig ar lefel ysgol gyfan, gan gynnwys mynd i'r afael â bwlio, ymddygiad gwael a gwella cyfleusterau ar gyfer disgyblion.

Hefyd, mae llawer o ysgolion yn cynnwys gweithgareddau ymgynghori â disgyblion ar faterion sy'n effeithio ar eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth, ar faterion ysgol gyfan ac, er enghraifft, ar faterion fel cludiant i'r ysgol a bwyta'n iach. Gall yr ymarferiadau ymgynghori hyn gynnwys ar arolygon barn, grwpiau trafod, sesiynau amser cylch neu gyfweliadau â disgyblion. Fel yn achos cynghorau ysgol, gall ymarferiadau ymgynghori sy'n cael eu cynnal yn briodol fod yn ddull effeithiol o ganfod barn disgyblion ar bob math o faterion sy'n berthnasol iddynt.

**Rhoi egwyddorion ar waith 1**

Datblygodd ysgol gynradd grwpiau gweithredu blwyddyn yr oedd y disgyblion yn gallu bod yn rhan ohonynt os oeddent yn dymuno. Rhoddwyd £200 i bob grŵp blwyddyn i'w wario ar weithgareddau hamdden yn ystod amser egwyl. Penderfynodd grŵp Blwyddyn 6 wario'i arian ar offer pêl droed a phêl rwyd. Disgwylir i'r disgyblion ofalu am eu hoffer. Dywedodd athrawon fod y disgyblion yn awr yn defnyddio'u hamser egwyl yn fwy effeithiol a'u bod yn ymfalchïo yn y dewisiadau a wnaethpwyd ganddynt.

Ar yr amod bod cynghorau ysgol wedi'u datblygu mewn ffordd sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion a amlinellwyd yn llais y myfyriwr a chyfranogiad disgyblion, mae NASUWT yn credu y gall cynghorau ysgol a dulliau tebyg fod yn ddull effeithiol o ymgysylltu â llais myfyrwyr.

Mae'r NASUWT yn bryderus, fodd bynnag, bod problemau wedi codi pan nad yw'r egwyddorion yn cael eu dilyn.

Er enghraifft, cododd problemau ynglŷn ag i ba raddau yr oedd disgyblion sy'n gwasanaethu ar gynghorau ysgol yn gallu adlewyrchu safbwyntiau eu holl gymheiriaid yn deg. Yn yr un modd, mae i ba raddau y mae canlyniadau gweithgareddau ymgynghori yn ddilys ac yn ddibynadwy o ran sampl y myfyrwyr y maent yn seiliedig yn ystyriaethau beirniadol os oes newidiadau i bolisïau ac arferion ysgol gyfan yn cael eu hystyried o ganlyniad i ganfyddiadau ymarferiadau o'r fath.

Dylid pwysleisio hefyd y dylai gwaith rheoli a gweinyddu cynghorau ysgol neu ymarferiadau ymgynghori eraill â disgyblion gael ei wneud gan staff cymorth sydd â chymwysterau priodol yn hytrach nag athrawon.

**Cynnwys disgyblion yn y broses o asesu eu gwaith eu hunain a phennu targedau cynnydd ar gyfer y dyfodol**

Gwelwyd pwyslais cynyddol ar ddulliau addysgu a dysgu sy'n cynnwys disgyblion fwy yn y broses o asesu eu cynnydd eu hunain a phennu targedau dysgu ar gyfer y dyfodol.

Mae'r NASUWT yn credu na fydd polisïau o'r fath yn effeithiol oni bai eu bod yn cynnwys dulliau dysgu ac addysgu sy'n annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu cynnydd a'u cyflawniad eu hunain ac sy'n rhoi iddynt y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen i ddatblygu'r gallu i ddysgu'n fwy annibynnol.

Yn y cyd-destun hwn, gall ymagweddau at lais y myfyriwr a chyfranogiad disgyblion lle mae disgyblion yn cyfrannu at bennu eu nodau a'u targedau dysgu eu hunain yn aml fod yn gyfryngau pwerus ac effeithiol i ddatblygu annibyniaeth y dysgwr. Fodd bynnag, mae'r NASUWT yn bendant na ddylai arferion o'r fath gael eu datblygu na'u gweithredu mewn ffordd sy'n gweithio yn erbyn gallu athrawon i wneud penderfyniadau effeithiol ar strategaethau dysgu ac addysgu priodol a gaiff eu defnyddio yn achos yr holl ddisgyblion hynny maent yn gyfrifol amdanynt.

Hefyd, gall rhai dulliau sy'n ceisio cynnwys mwy ar y disgyblion yn y broses o asesu cynnydd a phennu targedau ar gyfer y dyfodol roi pwysau diangen ar y llwyth gwaith a bod yn rhy fiwrocrataidd.

Rhaid i ysgolion sicrhau nad yw datblygiad gweithgareddau o'r fath yn effeithio ar ymdrechion i fynd i'r afael â llwyth gwaith athrawon a phenaethiaid ac i leihau nifer yr oriau gwaith.

**Rhoi egwyddorion ar waith 2**

Gofynnwyd i fyfyrwyr Addysg Grefyddol Blwyddyn 10 gwblhau cwestiwn arholiad TGAU enghreifftiol ar ddiwedd pwnc ar farn Cristnogion a Mwslimiaid ar sancteiddrwydd bywyd.

Yna eglurwyd y cynllun marcio ar gyfer y cwestiynau i'r myfyrwyr, gan amlygu'r hyn roeddent yn ei gredu oedd yn ddangosyddion allweddol i gael

pob gradd. Yna gofynnwyd iddynt asesu gwaith ei gilydd gan gynnwys dau darged positif am y gwaith ac un ffordd o wella'r gwaith yn y dyfodol.

Yna marciodd athro atebion y myfyrwyr, gan gymharu'r marciau a roddwyd gan ddisgyblion eraill yn yr asesiad gan gymheiriaid. Roedd hyn yn galluogi'r athro i ystyried a oedd myfyrwyr yn deall y cynllun marcio'n effeithiol ac i asesu'n fanwl y sbardunau ar gyfer symud rhwng graddau. Roedd y wers hefyd yn gyfle i fyfyrwyr ddeall mwy am dechnegau arholi ac am bennu eu targedau eu hunain ar gyfer gwaith y dyfodol.

**Disgyblion yn cynorthwyo ac yn gweithio â disgyblion eraill**

Dull effeithiol o ddatblygu a chynorthwyo cyfranogiad disgyblon yw drwy gael disgyblion i gynorthwyo a gweithio â disgyblion eraill. Gall gwaith o'r fath fod ar ffurf cefnogaeth gan gymheiriaid, lle mae plant hŷn yn helpu plant iau drwy weithgareddau fel gwrando arnynt yn darllen neu ddarparu gofal bugeiliol anffurfiol, neu fentora a chyfryngu gan gymheiriaid, lle mae pobl ifanc yn cael eu hyfforddi i helpu disgyblion eraill i ganfod atebion positif i anghytundebau a gwrthdaro.

Os caiff ei weithredu mewn ffordd sensitif a meddylgar, gall cyflwyno dulliau disgybl i ddisgybl gael effaith arwyddocaol a phositif ar ansawdd ymddygiad disgyblion ac ar ryngweithio mewn ysgolion a helpu a gwella lles disgyblion. Pan fo'r ymarfer yn effeithiol yn hyn o beth, bydd disgyblion yn dal i allu elwa ar gymorth priodol gan oedolion pan fydd angen a bydd cyfraniad disgybl i ddisgybl yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â pholisïau ysgol gyfan eraill, gan gynnwys polisïau ymddygiad a phresenoldeb, sy'n ymdrech i roi sylw i bryderon tebyg.

Mae defnydd effeithiol o arbenigedd a chymorth allanol i sefydlu ac i ddatblygu dulliau disgybl i ddisgybl o weithredu llais y disgybl yn ystyriaeth bwysig dros ben gan eu bod yn gallu sicrhau nad oes cyfrifoldebau'n cael eu dyrannu i athrawon a phenaethiaid tra bod gan aelodau eraill o'r gweithlu plant fwy o brofiad a chymwysterau mwy addas i'w cyflawni.

**Rhoi egwyddorion ar waith 3**

Roedd ysgol uwchradd wedi sefydlu prosiect gweithredu cymunedol. Fel rhan o'r prosiect roedd nifer o fechgyn chweched dosbarth wedi datblygu cyfres o weithgareddau celfyddydau perfformio ar gyfer disgyblion iau oedd â'r nod o fynd i'r afael â chanfyddiadau positif yr oedd gan rai o'r plant o gangiau a thrais troseddau cyllyll. Nid yn unig yr oedd hyn yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau adeiladu timau eu hunain ond roedd hefyd yn cynnig cyfle i'r disgyblion iau i weld delfrydau ymddwyn hŷn yn ymddwyn mewn ffordd adeiladol ac i ddatblygu dealltwriaeth o fater pwysig sy'n effeithio ar eu cymuned.

## Disgyblion yn arsylwi ar wersi

Mae'r NASUWT yn gynyddol bryderus am y defnydd a wneir o arsylwi gan ddisgyblion mewn gwersi fel ffordd o farnu ansawdd dysgu ac addysgu o safbwynt gwaith athrawon unigol ac ymgysylltiad disgyblion eraill neu'n fwy cyffredinol ar draws yr ysgol. Mae rhai ysgolion yn awr yn honni eu bod yn cynnig hyfforddiant i ddisgyblion unigol i'r diben hwn.

Dim ond oedolion sydd â chymwysterau addas ddylai arsylwi mewn gwersi. Dim ond athrawon sydd â Statws Athro Cymwysedig (QTS) ddylai gael datgan barn ar safon ymarfer proffesiynol.

Mae myfyrwyr sy'n arsylwi'n ffurfiol ar ymarfer athrawon yn tanseilio'r berthynas rhwng athrawon a myfyrwyr trwy ddilysu beirniadaeth o waith athrawon. Gallai defnydd o fecanweithiau ffurfiol sy'n galluogi disgyblion i asesu ansawdd dysgu ac addysgu drwy werthuso perfformiad nad yw'n seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd proffesiynol danseilio hyder yng ngallu a medrusrwydd athrawon.

Gan ddiystyru unrhyw amodau sy'n ceisio cael disgyblion sy'n adolygu perfformiad athrawon i barchu cyfrinachedd o ran eu gwerthusiad o ymarfer athrawon, mae'r ffaith na ellir dwyn disgyblion i gyfrif am dorri unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn golygu na ellir rhoi sicrwydd digonol i athrawon na fydd barn disgyblion sy'n adolygu am athrawon unigol yn cael ei rhannu'n fwy eang.

Nid yw'r pryderon hyn, fodd bynnag, yn atal athrawon, sy'n defnyddio eu mecanweithiau proffesiynol eu hunain rhag gwahodd adborth gan y disgyblion yn eu dosbarthiadau a chan grwpiau maent yn gyfrifol amdanynt i ddibenion eu myfyrdod proffesiynol eu hunain ac fel sail i gynllunio a blaenoriaethau cwricwlwm y dyfodol, ac nid yw ychwaith yn eu rhwystro rhag cael yr help a'r gefnogaeth y gall disgyblion eu rhoi fel mentoriaid cymheiriaid hyfforddedig ac adolygwyr i ddisgyblion eraill.

## Cynnwys disgyblion mewn recriwtio staff

Mae'n arfer cyffredin bellach bod gweithdrefnau recriwtio ar gyfer athrawon a phenaethiaid yn cynnwys rhyw elfen o waith uniongyrchol â disgyblion. Mae hyn wedi cynnwys penaethiaid yn ymweld ag ysgol i arsylwi ar yr athro sydd wedi gwneud cais am swydd, ond gall yn awr hefyd gynnwys gwahodd ymgeiswyr i gynllunio a dysgu gwers i ddosbarth neu grŵp o ddisgyblion yn yr ysgol lle maent wedi gwneud cais i weithio. Mae'r NASUWT yn deall pam y mae hyn yn elfen gyffredin o weithdrefnau recriwtio ond mae tystiolaeth yn awr yn dangos bod prosesau recriwtio sy'n cynnwys disgyblion yn golygu bod disgyblion yn rhoi adborth ar safon dybiedig gwers sydd wedi cael ei chyflwyno.

Nid yw'r NASUWT yn credu ei bod yn briodol bod trefniadau cyfweld yn cynnwys gofyn i ddisgyblion am eu barn ar rinweddau cymharol sgiliau dysgu a phroffesiynol eraill ymgeiswyr a fydd yn sail i benderfyniadau ar recriwtio, ac mae'n credu bod problemau difrifol ynghlwm wrth hyn o ran sicrhau nad yw'r ysgol yn torri'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb.

Mae'r NASUWT wedi clywed am nifer o achosion lle mae ymgeiswyr sy'n cael cyfweliad yn cael eu tywys o amgylch yr ysgol gan ddisgyblion, gyda'r disgyblion wedyn yn cael eu holi am eu barn ar addasrwydd yr ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio'n gyffredinol. Mae'r Undeb o'r farn bod hyn yn ymarfer gwael ac ni ddylid parhau â'r drefn oherwydd nid yn unig y mae'n amhriodol bod disgyblion yn cymryd rhan yn y broses recriwtio ond hefyd am ei bod yn amhosibl diffinio'r meini prawf a rennir ar gyfer seilio barn arnynt o ystyried natur teithiau tywys o'r fath. Hefyd, mae'r NASUWT yn credu y dylai teithiau tywys o'r fath fod yn gyfle i ymgeiswyr ddatblygu dealltwriaeth o'r ysgol lle maent wedi gwneud cais am swydd i benderfynu a ydynt yn dymuno parhau i fod yn ymgeisydd pendant. Yn y cyd-destun hwn, gallai cysylltiadau â disgyblion yn ystod y daith fod yn gyfle i drafod yr hyn mae disgyblion yn ei feddwl yw cryfderau a gwendidau'r ysgol. Gall ymgeiswyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu hasesu wrth gael eu tywys deimlo eu bod yn cael eu cyfyngu o ran y cwestiynau maent yn teimlo y gallant eu gofyn ac yn credu nad ydynt yn gallu asesu a yw'r ysgol maent yn ymweld â hi'n addas ar gyfer eu hanghenion.

Achos mwy o bryder yw bod gan ddisgyblion, mewn rhai achosion, gyfraniad mwy uniongyrchol yn y broses o recriwtio staff, gan gynnwys athrawon a phenaethiaid, drwy fod yn rhan o banelau cyfweld, naill ai fel aelodau o'r panel neu fel 'ymgynghorwyr'. Nid yw'r NASUWT yn derbyn bod yr arfer hwn yn briodol. Mae cyfrifoldebau moesegol a chyfreithiol sylweddol ynghlwm wrth aelodaeth panelau cyfweld o ran tegwch, cydraddoldeb, diogelu ac amddiffyn plant a sicrhau effeithiolrwydd cyffredinol tîm yr ysgol.

Mae penodi staff yn ymgymeriad difrifol a phwysig. Mae angen yr ysgol i benodi'r unigolyn gorau ar gyfer y swydd yn amlwg yn bwysig ond mae'n bwysig hefyd bod pob ymgeisydd yn cael eu trin yn deg, bod yr unigolyn a fydd yn cael ei benodi i'r swydd yn gallu bod yn hyderus yn eu rôl newydd ac nad ydynt yn rhwym o fethu. Bydd rhan o'r hyder hwnnw'n ddibynnol ar y gallu i greu lefel briodol o gydberthynas â'r disgyblion a theimlo eu bod wedi'u grymuso i weithredu ag awdurdod. Gall cynnwys disgyblion yn uniongyrchol yn y broses benodi beryglu'r ystyriaethau hyn i gyd.

Mae'n ymarfer da bod pob unigolyn sy'n rhan o banelau penodi wedi cael eu hyfforddi i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol a'u bod yn atebol am y penderfyniadau a wneir ganddynt. Nid atebolrwydd i'r ysgol yn unig yw hwn, ond gallai hefyd gynnwys gofyniad i amddiffyn y penderfyniad i benodi

gerbron llys neu mewn Tribiwnlys Cyflogaeth. Nid yn unig y byddai'n amhriodol ond byddai hefyd yn annymunol i ddisgwyl i ddisgyblion rannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y fath lefel. Yn wir, ni fyddai'n rhesymol i roi disgyblion mewn sefyllfaoedd lle rhoddir cyfrifoldebau iddynt nad ydynt yn eu gwerthfawrogi'n llawn ac a allai arwain at ganlyniadau difrifol os nad ydynt yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

**Disgyblion fel llywodraethwyr cyswllt**

Gall cysylltiad rhwng disgyblion a llywodraethwyr fod yn rhan bwysig o weithredu llais y myfyriwr a chyfranogiad disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, gellid gofyn i aelodau cyngor ysgol, neu gallant ofyn am gael bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r llywodraethwyr i roi adborth ar eu gweithgareddau neu i drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gallai hon fod yn eitem reolaidd ar agenda corff llywodraethu.

Yng Nghymru, gall cynghorau ysgol enwebu hyd at ddau aelod o'r cyngor i wasanaethu ar gyrff llywodraethu,[6] ac yn Lloegr, gall cyrff llywodraethu ysgolion, os ydynt yn dymuno, enwebu disgyblion i weithredu fel llywodraethwyr cyswllt.[7] Mae goblygiadau difrifol posibl i staff a disgyblion os nad yw'r ymgysylltu â disgyblion sy'n llywodraethwyr â gweithgareddau'r corff llywodraethu'n cael eu hystyried yn ofalus ac yn cael eu rheoli'n briodol.

Dylid nodi y gall cyrff llywodraethu yng Nghymru a Lloegr wahardd disgyblion sy'n llywodraethwyr o gyfarfodydd corff llywodraethu pan fydd yn trafod materion fel:

- penodi staff, cyflog staff, disgyblu staff, rheoli perfformiad staff, cwynion a wnaethpwyd gan staff neu ddiswyddo staff;
- mynediad;
- disgyblu disgyblion unigol;
- ethol, penodi a diswyddo llywodraethwyr;
- ymrwymiadau cyllidebol ac ariannol y corff llywodraethu; ac
- unrhyw fater arall y mae'r corff llywodraethu'n credu y dylai gael ei gyfyngu i aelodau llawn.

Mae'r NASUWT yn bendant bod y ffaith bod pwerau'r corff llywodraethu i wahardd yn rhai dewisol yn golygu bod perygl y gallai cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau a wneir gan gyrff llywodraethu arwain at wrthdrawiad buddiannau i'r disgyblion dan sylw. Ni fyddai'n rhesymol, er enghraifft, i

[6] Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005.

[7] School Governance (Constitution) (England) Regulations 2003.

ddisgwyl y byddai rhai disgyblion yn amhleidiol yn achos disgyblion unigol a all fod yn destun penderfyniad gan y corff llywodraethau, a rhai y mae'n bosibl bod ganddynt hanes personol o gyfeillgarwch neu wrthdaro â hwy.

O ran materion staffio, gallai penderfyniad i beidio â gwahardd disgybl sy'n llywodraethwr o drafodaethau a allai fod â goblygiadau uniongyrchol i delerau ac amodau cyflogaeth staff unigol ac a allai arwain at ddatgelu gwybodaeth a allai danseilio parhad perthynas addysgol briodol rhwng disgyblion ac athrawon ac aelodau eraill o'r staff hefyd fod yn broblemus iawn.

Mae'r NASUWT yn credu y dylai cyrff llywodraethu bob amser ddefnyddio eu pwerau i wahardd disgyblion sy'n llywodraethwyr pan fydd y materion a restrwyd uchod yn cael eu trafod. Dylai staff sy'n llywodraethwyr sicrhau nad yw disgyblion sy'n llywodraethwyr yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol mewn rhannau o gyfarfodydd y corff llywodraethau lle mae materion o'r fath a ddisgrifir uchod yn cael eu trafod.

## CYNGOR

Cynghorir aelodau o'r NASUWT sy'n arweinwyr ysgol i werthuso polisïau presennol neu newydd yn erbyn y saith egwyddor a nodwyd gan yr NASUWT.

Dylai arferion effeithiol i weithredu llais y myfyriwr gynnwys ymgynghori a cheisio cytuno ar bolisïau llais y myfyriwr â'r NASUWT ac undebau llafur eraill gweithlu'r ysgol.

Mae gan Gynrychiolydd Gweithle'r NASUWT rôl allweddol i'w chwarae i geisio sicrhau bod y saith egwyddor allweddol a amlinellwyd uchod yn cael eu gweithredu mewn asesiad o unrhyw gynigion ar gyfer llais y myfyriwr ac i sicrhau bod sylwadau priodol yn cael eu cyflwyno i reolwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn achos unrhyw systemau arfaethedig neu systemau sydd ar waith eisoes.

Bydd angen i athrawon unigol fod yn wyliadwrus i ddiogelu eu proffesiynoldeb eu hunain a dylent gwestiynau a gwrthwynebu, gyda chefnogaeth yr Undeb, unrhyw arferion sy'n mynd yn groes i egwyddorion yr NASUWT.

Os na fydd yn bosibl sicrhau dulliau priodol o weithredu gweithgareddau llais y myfyriwr neu gyfranogiad myfyrwyr ar lefel yr ysgol mewn ffordd sy'n gydnaws ag egwyddorion yr NASUWT, yna dylid gofyn am gefnogaeth yr NASUWT.

## Atodiad

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

### Erthygl 28

1. States Parties recognize the right of the child to education, and with a view to achieving this right progressively and on the basis of equal opportunity, they shall, in particular:

   a. Make primary education compulsory and available free to all;

   b. Encourage the development of different forms of secondary education, including general and vocational education, make them available and accessible to every child, and take appropriate measures such as the introduction of free education and offering financial assistance in case of need;

   c. Make higher education accessible to all on the basis of capacity by every appropriate means;

   d. Make educational and vocational information and guidance available and accessible to all children;

   e. Take measures to encourage regular attendance at schools and the reduction of drop-out rates.

2. States Parties shall take all appropriate measures to ensure that school discipline is administered in a manner consistent with the child's human dignity and in conformity with the present Convention.

3. States Parties shall promote and encourage international cooperation in matters relating to education, in particular with a view to contributing to the elimination of ignorance and illiteracy throughout the world and facilitating access to scientific and technical knowledge and modern teaching methods. In this regard, particular account shall be taken of the needs of developing countries.

### Erthygl 29

1. States Parties agree that the education of the child shall be directed to:

   a. The development of the child's personality, talents and mental and physical abilities to their fullest potential;

b. The development of respect for human rights and fundamental freedoms, and for the principles enshrined in the Charter of the United Nations;

c. The development of respect for the child's parents, his or her own cultural identity, language and values, for the national values of the country in which the child is living, the country from which he or she may originate, and for civilizations different from his or her own;

d. The preparation of the child for responsible life in a free society, in the spirit of understanding, peace, tolerance, equality of sexes, and friendship among all peoples, ethnic, national and religious groups and persons of indigenous origin;

e. The development of respect for the natural environment.

2. No part of the present article or article 28 shall be construed so as to interfere with the liberty of individuals and bodies to establish and direct educational institutions, subject always to the observance of the principle set forth in paragraph 1 of the present article and to the requirements that the education given in such institutions shall conform to such minimum standards as may be laid down by the State.

www.nasuwt.org.uk

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

Clos Greenwood
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD
Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

*Yr undeb athrawon mwyaf yng Nghymru*

15/07047 Cymru